# *Mae’ch Arian o Bwys* – Arolwg Athrawon




Croeso i’r gwerthusiad o *Mae’ch Arian o Bwys* – a gynhelir gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin ochr yn ochr â Young Money a’r Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

Gwerslyfr addysg ariannol yw *Mae’ch Arian o Bwys* a gynhyrchwyd gan Young Money, sy’n rhan o Young Enterprise. Gyda chyllid gan Martin Lewis OBE a’r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, cynhyrchwyd argraffiadau newydd, perthnasol ac wedi’u diweddaru o *Mae’ch Arian o Bwys* ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Anfonwyd argraffiad Cymru (yn Gymraeg ac yn Saesneg) at bob ysgol ganol ac uwchradd yng Nghymru a ariennir gan y wladwriaeth yn yr hydref 2021.

Flwyddyn yn ddiweddarach, rydym yn awyddus i ddeall effaith y gwerslyfr *Mae’ch Arian o Bwys*, y Canllaw i Athrawon a’r sleidiau PowerPoint ar gyfer gwersi sy’n ymwneud â chyflwyno addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru, ac fe’ch gwahoddwn i rannu eich profiadau gyda ni trwy arolwg gwerthuso.

Mae’r gwerthusiad yn gwbl wirfoddol, ond gobeithiwn y byddwch yn cymryd rhan ac yn ein helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn. Os byddwch yn cymryd rhan, bydd eich atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn ddienw, ac fe’u defnyddir at ddiben y gwerthusiad hwn a gwaith ymchwil cysylltiedig yn unig. Ni fydd unrhyw unigolion nac ysgolion yn cael eu henwi.

Dylai’r arolwg hwn gymryd tua 15 munud i’w lenwi. Ar y dudalen nesaf, gofynnir i chi gofnodi’ch cydsyniad i gymryd rhan ac i’ch ymatebion gael eu defnyddio yn y gwerthusiad.

Mae manylion llawn am y gwerthusiad ar gael ar dudalen we Gwerthuso Effaith Mae’ch Arian o Bwys.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwerthusiad, cysylltwch â Tina Harrison at Tina.Harrison@ed.ac.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adnoddau *Mae’ch Arian o Bwys*, cysylltwch â Cerys Wakeman ar Cerys.Wakeman@y-e.org.uk.

Diolch yn fawr o flaen llaw am eich amser.
Tîm Gwerthuso *Mae’ch Arian o Bwys*

C1 **Cadarnhewch eich cydsyniad i gymryd rhan yn yr arolwg hwn**
*(Os atebwch 'Nac ydw', cewch eich cyfeirio at ddiwedd yr arolwg)*

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| -Rwyf yn deall fy mod yn cymryd rhan yn yr arolwg yn gwbl wirfoddol ac y caf dynnu'n ôl neu ofyn i'm data gael ei dynnu'n ôl unrhyw bryd.<br>-Bydd fy nata dienw yn cael ei gadw am 5 mlynedd o leiaf ac fe allai gael ei ddefnyddio mewn gwaith ymchwil yn y dyfodol a gymeradwywyd yn foesegol.<br>-Rwyf yn cytuno i gymryd rhan yn yr arolwg ac i'm hymatebion gael eu defnyddio i werthuso *Mae'ch Arian o Bwys*. | ◯ | ◯ |

[Os 'Nac ydw', neidiwch i ddiwedd yr arolwg]

---

C2 **Rhowch y wybodaeth ganlynol, os gwelwch yn dda**
*(Bydd hyn yn ein helpu i ddeall cyrhaeddiad daearyddol Mae'ch Arian o Bwys)*

◯ Enw'r ysgol / sefydliad ______________________________________________

◯ Cod post yr ysgol / sefydliad ________________________________________

---

C3 **Beth yw'ch rôl yn yr ysgol/sefydliad?**
*(Dewiswch yr opsiwn sy'n cyfateb orau i'ch rôl)*

◯ Pennaeth

◯ Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol

◯ Pennaeth Pwnc / Adran / Blwyddyn

◯ Athro / Athrawes (Pwnc / Dosbarth)

◯ Athro / Athrawes dan Hyfforddiant

◯ Cynorthwy-ydd Addysgu

◯ Arall (nodwch) ________________________________________

---

C4 **A ydych yn ystyried eich hun yn:**

◯ Wrywaidd

◯ Benywaidd

◯ Anneuaidd / trydydd rhywedd

◯ Gwell gennyf beidio â dweud

---

C5 **Ers sawl blwyddyn ydych chi wedi bod yn addysgu / cynorthwyo addysgu?**

C6 **Ers sawl blwyddyn ydych chi wedi bod yn addysgu / helpu i gyflwyno addysg ariannol?**

C7 **Cyn derbyn yr adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*, pa mor aml y cyflwynoch chi addysg ariannol yn bersonol, ar gyfartaledd?**

- ◯ Unwaith neu ddwywaith yr wythnos
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y mis
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y tymor
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn
- ◯ Arall, nodwch ___________________________________________
- ◯ Byth/Ni wnes i hyn [Neidiwch i Gwestiwn 10]

C8**. Cyn derbyn yr adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*, pa grwpiau blwyddyn y cyflwynoch chi addysg ariannol iddynt yn bersonol?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Blwyddyn 7
- ☐ Blwyddyn 8
- ☐ Blwyddyn 9
- ☐ Blwyddyn 10
- ☐ Blwyddyn 11
- ☐ Blwyddyn 12
- ☐ Blwyddyn 13
- ☐ Arall (nodwch) ___________________________________________

C9 **Cyn derbyn yr adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*, ym mha gyd-destun y cyflwynoch chi addysg ariannol yn bersonol?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Mathemateg a Rhifedd
- ☐ Astudiaethau Busnes / Economeg
- ☐ TGCh / Technoleg
- ☐ Gyrfaoedd / Sgiliau / Cyflawniad Ehangach
- ☐ Dinasyddiaeth / Dinasyddiaeth Fyd-eang / Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd
- ☐ Addysg Bersonol, Gymdeithasol neu Iechyd / Iechyd a Lles
- ☐ Bagloriaeth Cymru
- ☐ Trawsgwricwlaidd / ymyriadau trawsgwricwlaidd
- ☐ O fewn Amser Cofrestru / Amser Tiwtor / Amser Dosbarth
- ☐ Y tu allan i'r amserlen (e.e. 'Diwrnod Arian' neu 'Ddiwrnod Sgiliau')
- ☐ Arall (nodwch) ________________________________________________

---

## DEFNYDDIO ADNODDAU *MAE'CH ARIAN O BWYS*

C10 **Ydych chi wedi defnyddio'r gwerslyfr neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* i gynllunio neu gyflwyno unrhyw wersi addysg ariannol?**

- ○ Ydw, rwyf wedi defnyddio'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* i gynllunio gwersi addysg ariannol (ond nid wyf wedi'u cyflwyno eto)
- ○ Ydw, rwyf wedi defnyddio'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* i gynllunio a chyflwyno gwersi addysg ariannol
- ○ Nac ydw, nid wyf wedi defnyddio'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* eto i gynllunio na chyflwyno unrhyw wersi ariannol [Neidiwch i Gwestiwn 19]

---

C11 **Pa rai o adnoddau canlynol *Mae'ch Arian o Bwys* ydych chi wedi'u defnyddio'n bersonol?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| **Copïau ffisegol o'r gwerslyfr Mae'ch Arian o Bwys** | ☐ |
| **Fersiwn ddigidol o'r gwerslyfr Mae'ch Arian o Bwys** | ☐ |
| **Y Canllaw i Athrawon digidol** | ☐ |
| **Y sleidiau PowerPoint digidol ar gyfer gwersi** | ☐ |

C12 **Pa rai o'r pynciau canlynol (yr ymdrinnir â nhw gan Benodau unigol yn y gwerslyfr) ydych chi wedi'u defnyddio'n bersonol o'r gwerslyfr a / neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* i gynllunio neu gyflwyno eich addysgu?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Cynilo (Pennod 1)
- ☐ Gwneud y mwyaf o'ch arian (Pennod 2)
- ☐ Benthyca (Pennod 3)
- ☐ Symud ymlaen o'r ysgol – byd gwaith (Pennod 4)
- ☐ Risg a gwobr (Pennod 5)
- ☐ Diogelwch a thwyll (Pennod 6)
- ☐ Nid wyf wedi defnyddio unrhyw un ohonynt eto

C13 **Ar gyfer pa grwpiau blwyddyn y cynllunioch neu y cyflwynoch chi wersi addysg ariannol iddynt gan ddefnyddio'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Blwyddyn 7
- ☐ Blwyddyn 8
- ☐ Blwyddyn 9
- ☐ Blwyddyn 10
- ☐ Blwyddyn 11
- ☐ Blwyddyn 12
- ☐ Blwyddyn 13
- ☐ Arall (nodwch) ______________________________________________
- ☐ Dim un o'r uchod

---

C14 **Ar gyfer pa gyd-destun y cynllunioch neu y cyflwynoch chi addysg ariannol yn bersonol gan ddefnyddio'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Mathemateg a Rhifedd
- ☐ Astudiaethau Busnes / Economeg
- ☐ TGCh / Technoleg
- ☐ Gyrfaoedd / Sgiliau / Cyflawniad Ehangach
- ☐ Dinasyddiaeth / Dinasyddiaeth Fyd-eang / Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd
- ☐ Addysg Bersonol, Gymdeithasol neu Iechyd / Iechyd a Lles
- ☐ Bagloriaeth Cymru
- ☐ Trawsgwricwlaidd / ymyriadau trawsgwricwlaidd
- ☐ O fewn Amser Cofrestru / Amser Tiwtor / Amser Dosbarth
- ☐ Y tu allan i'r amserlen (e.e. 'Diwrnod Arian' neu 'Ddiwrnod Sgiliau')
- ☐ Arall (nodwch) ______________________________________________
- ☐ Dim un o'r uchod

C15 **Pa mor aml y cyflwynoch chi addysg ariannol yn bersonol gan ddefnyddio'r gwerslyfr a / neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*?**

- ◯ Unwaith neu ddwywaith yr wythnos
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y mis
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y tymor
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn
- ◯ Arall (nodwch) ____________________________________________

---

C16 **Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r ffordd rydych chi'n addysgu (neu'ch cynlluniau ar gyfer addysgu) addysg ariannol o ganlyniad i'r gwerslyfr a / neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*?**

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw [Neidiwch i Gwestiwn 18]

---

C17 **Rhowch wybod i ni beth oedd y newidiadau hyn i'ch ffordd o addysgu (neu'ch cynlluniau ar gyfer addysgu) addysg ariannol o ganlyniad i'r gwerslyfr a / neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*.**

________________________________________________________________________

________________________________________________________________________

---

C18 **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y gwerslyfr a/neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* wedi cyfrannu at y canlynol o fewn eich ysgol:**

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno i ryw raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno i ryw raddau | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu ysgogiad ymhlith athrawon i addysgu addysg ariannol | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Cynyddu dealltwriaeth o le addysg ariannol yn y cwricwlwm | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Cynyddu faint o addysg ariannol a gyflwynir yn ein hysgol | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Gwella ansawdd yr addysg ariannol a gyflwynir yn ein hysgol | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

[Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os atebwyd ‘Nac ydw’ i Gwestiwn 10]

C19 **A gyfrannodd unrhyw un o’r canlynol at y rheswm pam na ddefnyddioch chi’r gwerslyfr a / neu’r adnoddau *Mae’ch Arian o Bwys*?**

*(Graddiwch y 3 phrif reswm)*

_______ Nid oeddwn yn ymwybodol o’r gwerslyfr a’r adnoddau Mae’ch Arian o Bwys
_______ Nid wyf wedi cael amser i ddefnyddio’r gwerslyfr / adnoddau Mae’ch Arian o Bwys eto
_______ Diffyg amser yn y cwricwlwm ar gyfer addysg ariannol
_______ Nid yw addysg ariannol yn flaenoriaeth i’n hysgol ni
_______ Nid yw’r gwerslyfr a’r adnoddau Mae’ch Arian o Bwys yn ddulliau cymorth priodol
_______ Rwyf eisoes yn defnyddio adnoddau eraill ar gyfer addysg ariannol (nodwch ba adnoddau)
_______ Diffyg diddordeb gan uwch aelodau staff
_______ Diffyg diddordeb gan bobl ifanc
_______ Gormod o flaenoriaethau eraill
_______ Ddim yn gwybod
_______ Arall (nodwch)

---

C20 **Beth fyddai’n eich helpu i ddefnyddio *Mae’ch Arian o Bwys*?**

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

---

C21 **A ddefnyddioch chi’n flaenorol y fersiwn wreiddiol o’r gwerslyfr *Your Money Matters* a ariannwyd gan Martin Lewis ac a lansiwyd yn Lloegr yn 2018?**

○ Naddo [Neidiwch i Gwestiwn 23]

○ Do, y copi ffisegol o’r gwerslyfr yn bennaf

○ Do, y fersiwn ddigidol o’r gwerslyfr yn bennaf

○ Do, y fersiynau ffisegol a digidol

---

C22 **Nodwch yn fyr ble a sut y defnyddioch chi’r gwerslyfr *Mae’ch Arian o Bwys* (e.e. ym mha gyd-destun, grwpiau blwyddyn, nifer y myfyrwyr ac ati)**

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

## HYDER, GWYBODAETH A SGILIAU I ADDYSGU ADDYSG ARIANNOL

C23 **Nodwch ba mor hyderus yr oeddech chi'n teimlo CYN derbyn y gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* a pha mor hyderus yr ydych chi'n teimlo NAWR:**

| | CYN | NAWR |
|---|---|---|
| I gynllunio gwersi addysg ariannol o ansawdd da i bobl ifanc | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| I gyflwyno addysg ariannol i bobl ifanc | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| I deilwra gweithgareddau dysgu addysg ariannol i nodweddion ac anghenion canfyddedig pobl ifanc | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |

*1 = Ddim yn hyderus o gwbl, 2 = Ychydig yn hyderus, 3 = Yn weddol hyderus, 4 = Yn hyderus iawn, 5 = Yn dra hyderus

C24 **Nodwch ba mor wybodus yr oeddech chi'n teimlo CYN derbyn y gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* a pha mor wybodus yr ydych chi'n teimlo NAWR i gyflwyno gallu ariannol / addysg ariannol i bobl ifanc ar y pynciau canlynol:**

| | CYN | NAWR |
|---|---|---|
| **Cynilo** (e.e. pam cynilo, sut i gynilo, cyfrifon a chynhyrchion cynilo, llog) (1) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| **Gwneud y mwyaf o'ch arian** (e.e. penderfyniadau gwario, ffyrdd o dalu, cyllidebu, gwerth am arian) (2) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| **Benthyca** (e.e. dyled, ad-dalu, llog, APR, dewisiadau a chynhyrchion benthyca) (3) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| **Symud ymlaen o'r ysgol – byd gwaith** (e.e. prentisiaethau, cyflogaeth, astudio, cyllid myfyrwyr, enillion, slipiau talu, treth, yswiriant gwladol, pensiynau) (5) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| **Risg a gwobr** (e.e. mathau o risg, asesu risg, diogelu rhag risg, yswiriant, buddsoddiadau, gamblo) (6) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| **Diogelwch a thwyll** (e.e. dwyn hunaniaeth, seiberdroseddu, diogelu rhag twyll, diogelwch ar-lein, mulod arian) (7) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |

*1 = Ddim yn wybodus o gwbl, 2 = Ychydig yn wybodus, 3 = Yn weddol wybodus, 4 = Yn wybodus iawn, 5 = Yn dra gwybodus

C25 **Nodwch ba mor fedrus yr oeddech chi’n teimlo <u>CYN</u> derbyn y gwerslyfr a’r adnoddau *Mae’ch Arian o Bwys* a pha mor fedrus yr ydych chi’n teimlo <u>NAWR</u>:**

| | **CYN** | **NAWR** |
|---|---|---|
| I addysgu ystod o gysyniadau a phynciau i bobl ifanc | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| I ddefnyddio offer ac adnoddau i ddatblygu a / neu gyflwyno addysg ariannol i bobl ifanc | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |
| I weithredu (neu ymestyn) addysg ariannol o fewn y cwricwlwm yn fy lleoliad (e.e. gyda syniadau ynglŷn â sut i addysgu addysg ariannol i bobl ifanc) | 1 2 3 4 5* | 1 2 3 4 5* |

*1 = Ddim yn fedrus o gwbl, 2 = Ychydig yn fedrus, 3 = Yn weddol fedrus, 4 = Yn fedrus iawn, 5 = Yn dra medrus

C26 **I ba raddau ydych chi’n cytuno/anghytuno:**

| | Anghytuno’n gryf | Anghytuno i ryw raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno i ryw raddau | Cytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae’n bwysig cyflwyno addysg ariannol i bobl ifanc | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwyf wedi’m hysbrydoli i gyflwyno addysg ariannol i bobl ifanc | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae digon o adnoddau ar gael i gynorthwyo athrawon i gyflwyno addysg ariannol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwyf yn gwybod ble mae addysg ariannol yn perthyn i’r cwricwlwm | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

## EFFAITH *MAE'CH ARIAN O BWYS*

C27 **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*:**

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno i ryw raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno i ryw raddau | Cytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gallant arbed amser i mi wrth gynllunio a datblygu gwersi addysg ariannol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gellir eu defnyddio'n hyblyg o fewn y cwricwlwm | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gallant alluogi cyflwyno gwersi / gweithgareddau mwy diddorol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Maen nhw'n ymdrin â'r ystod o bynciau sy'n angenrheidiol i addysgu addysg ariannol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Maen nhw'n darparu popeth y mae arnaf ei angen i addysgu addysg ariannol yn effeithiol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

## BWRIADAU I DDEFNYDDIO *MAE'CH ARIAN O BWYS* YN Y DYFODOL

C28 **Pa mor debygol ydych chi o ddefnyddio'r gwerslyfr a / neu'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* yn bersonol i gynllunio neu gyflwyno addysg ariannol yn eich ysgol yn ystod y 12 mis nesaf?**

- ○ Byddaf, yn sicr
- ○ Byddaf, fwy na thebyg
- ○ Ni fyddaf, fwy na thebyg [Neidiwch i Gwestiwn 32]
- ○ Ni fyddaf, yn sicr [Neidiwch i Gwestiwn 32]
- ○ Ddim yn gwybod

C29 **Yn ystod y 12 mis nesaf, pa mor aml y byddwch chi'n addysgu addysg ariannol yn bersonol yn eich ysgol gan ddefnyddio'r gwerslyfr a / neu'r adnodau *Mae'ch Arian o Bwys*?**

- ◯ Unwaith neu ddwywaith yr wythnos
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y mis
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y tymor
- ◯ Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn
- ◯ Arall (nodwch) ________________________________________________
- ◯ Ddim yn gwybod

---

C30 **Yn ystod y 12 mis nesaf, pa grwpiau blwyddyn ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* gyda nhw'n bersonol?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Blwyddyn 7
- ☐ Blwyddyn 8
- ☐ Blwyddyn 9
- ☐ Blwyddyn 10
- ☐ Blwyddyn 11
- ☐ Blwyddyn 12
- ☐ Blwyddyn 13
- ☐ Dim un
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Arall (nodwch) ________________________________________________

---

C31 **Yn ystod y 12 mis nesaf, ym mha gyd-destun ydych chi’n debygol o ddefnyddio’r gwerslyfr a / neu’r adnoddau *Mae’ch Arian o Bwys* yn bersonol?**
*(Dewiswch bob un sy’n berthnasol)*

- ☐ Mathemateg a Rhifedd
- ☐ Astudiaethau Busnes / Economeg
- ☐ TGCh / Technoleg
- ☐ Gyrfaoedd / Sgiliau / Cyflawniad Ehangach
- ☐ Dinasyddiaeth / Dinasyddiaeth Fyd-eang / Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd
- ☐ Addysg Bersonol, Gymdeithasol neu Iechyd / Iechyd a Lles
- ☐ Bagloriaeth Cymru
- ☐ Trawsgwricwlaidd / ymyriadau trawsgwricwlaidd
- ☐ O fewn Amser Cofrestru / Amser Tiwtor / Amser Dosbarth
- ☐ Y tu allan i’r amserlen (e.e. 'Diwrnod Arian' neu 'Ddiwrnod Sgiliau')
- ☐ Arall (nodwch) ____________________________________________

- ☐ Dim un o’r uchod
- ☐ Ddim yn gwybod

---

[Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os atebwyd ‘Ni fyddaf, yn sicr’ ‘Ni fyddaf, fwy na thebyg’ i Gwestiwn 28]

C32 **Dywedwch wrthym pam na fyddwch chi’n bersonol yn defnyddio’r gwerslyfr a’r adnoddau *Mae’ch Arian o Bwys* yn ystod y 12 mis nesaf**

______________________________________________________________________

---

## SYLWADAU TERFYNOL

C33 **A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

---

C34 **Rydym yn bwriadu cynnal gwaith ymchwil pellach yn rhan o'r gwerthusiad (e.e. cyfweliadau ag athrawon, grwpiau ffocws gyda phobl ifanc, astudiaethau achos ysgolion)**

**Os byddech chi / eich ysgol yn fodlon i ni gysylltu â chi ynglŷn â chymryd rhan mewn unrhyw waith ymchwil pellach, rhowch eich enw a'ch manylion cyswllt isod.**
*(Byddwn yn ceisio caniatâd rhieni ar gyfer yr holl bobl ifanc sy'n gysylltiedig hefyd)*

- ◯ Enw cyswllt ___________________________________________

- ◯ Cyfeiriad e-bost ___________________________________________

---

**DIOLCH**

Bydd eich ymatebion yn cael eu prosesu gan Ysgol Fusnes Caeredin